Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Betws yn Rhos
**Neuadd y Pentref**
**Betws yn Rhos**
**Abergele**
**LL22 8AP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Betws yn Rhos wedi ei leoli yn neuadd y pentref lleol ac wedi darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ers 1970. Pentref bach gwledig yw Betws yn Rhos sydd tua 3 milltir i'r de o Abergele yng Ngogledd Cymru. Mae'n aelod cofrestredig o Fudiad Meithrin ac yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Conwy.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC ) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 18 o blant. Ar hyn o bryd mae 15 o blant ar y gofrestr, pump ohonynt yn 2 oed, chwech yn 4 mlwydd oed ac mae'r pedwar plentyn arall 3 oed yn cael eu hariannu.

Mae'r lleoliad ar agor am bedwar bore o`r wythnos (9 y.b. tan 11.30 y.b. - nid dydd Mercher), yn ystod y tymor ysgol ar gyfer y plant 3 oed. Mae`r rhieni yn penderfynu ar nifer y sesiynau mae`u plant yn mynychu. Mae'r plant 4 oed yn mynychu dosbarth meithrin yr ysgol leol yn y lle cyntaf ac yn dod i'r Cylch am 11 y.b.

Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o'r ardal leol a'r pentrefi cyfagos - ardal sy`n cael ei disgrifio fel un nad yw'n freintiedig nac o dan anfantais yn economaidd na`n gymdeithasol. Mae plant o bob gallu a chefndir yn cael eu croesawu i'r lleoliad, er ar hyn o bryd nid oes unrhyw blant o gefndir lleiafrifoedd ethnig, neu unrhyw blant sydd wedi`u nodi fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ( ADY ).

Saesneg yw iaith y cartref i`r rhan fwyaf o'r plant gyda llawer o'r rhieni yn awyddus i'r plant i ddysgu'r iaith Gymraeg. Prif gyfrwng dysgu ac addysgu`r lleoliad yw`r Gymraeg, er bod yr iaith Saesneg yn cael ei defnyddio yn ôl yr angen.

Mae'r Cylch yn cyfarfod mewn ystafell yng nghefn y neuadd bentref sy'n gyfagos i'r ysgol. Mae`r neuadd o faint digonol ac yn cynnwys y cyfleusterau angenrheidiol i ddarparu gweithgareddau ymarferol yn unol ag anghenion athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae ardaloedd o laswellt ac o darmac tu ôl i'r ysgol yn cael eu defnyddio yn aml gan y lleoliad i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan AGGCC yn 2013. Nid oedd unrhyw argymhellion arwyddocaol. Roedd arolygiad blaenorol Estyn yn 2008 ac mae'r argymhellion wedi cael sylw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r profiadau dysgu sydd wedi`u cynllunio`n llwyddo i ennyn diddordeb y plant ac yn canolbwyntio`n dda ar sicrhau eu cynnydd;
- y berthynas rhwng y plant a rhwng plant ac oedolion; mae`r plant yn dysgu parch a goddefgarwch;
- mae`r plant yn cael cyfleoedd i arbrofi ac i fynd i`r afael â phrofiadau newydd;
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu`r iaith Gymraeg;
- y pwyslais mae`r staff yn rhoi ar ddarparu cyfleoedd i`r plant weithio`n annibynnol;
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant;
- yr amgylchedd gwaith sy`n cael ei ddarparu ar gyfer y plant;
- y synwyr cryf o ddiben sy`n amlwg yn y lleoliad;
- y bartneriaeth â`r ysgol gynradd leol.

**Rhagolygon gwella**

***Prif arfarniad***

Mae`r rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- ansawdd yr arweinyddiaeth sy`n canolbwyntio`n dda ar ddarparu`r ddarpariaeth orau posibl i`r plant;
- cefnogaeth y pwyllgor rheoli;
- cefnogaeth weithgar y rhieni;
- hanes sefydledig o sicrhau gwelliannau;
  y gefnogaeth gan athrawes gefnogi`r Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin.

## Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio`r cynllunio ar gyfer dysgu`r plant er mwyn sicrhau bod medrau allweddol y plant yn datblygu`n systematig.

A2 defnyddio canlyniadau`r asesu er mwyn nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

A3 hysbysu`r rhieni o`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant fel eu bod yn medru bod yn bartneriaid yn addysg eu plant.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu sy`n cael eu cynllunio yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus. Mae`r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau ar y cyd ac mae'r cynllunio yn ddigon hyblyg i ymateb i ddiddordebau`r plant. Mae'r profiadau dysgu sydd wedi`u cynllunio wedi'u ffocysu'n dda ar sicrhau cynnydd plant tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Nid yw`r cynllunio, fodd bynnag, yn dangos yn glir sut mae medrau`r plant i`w datblygu`n systematig.

Mae`r berthynas yn dda ac mae plant yn cael eu dysgu i barchu ei gilydd ac i fod yn oddefgar. Nodwedd arbennig a da o'r gwaith cynllunio yw ei fod yn rhoi cyfleoedd i blant arbrofi a mynd i'r afael â phrofiadau newydd. Mae yna hefyd gyfleoedd da i`r plant ddatblygu eu medrau meddwl, yn ogystal â phrofi cwricwlwm eang sy`n cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd maen nhw`n byw ynddo.

Mae'r profiadau dysgu wedi`u cynllunio`n dda i alluogi`r plant i gaffael y medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd angen arnynt. Mae`r medrau llythrennedd a rhifedd yn cael eu hintegreiddio'n dda i mewn i`r gweithgareddau cwricwlaidd. Nid yw`r cynllunio, fodd bynnag, yn dangos yn glir sut mae'r medrau hyn yn cael eu datblygu'n raddol. Serch hynny, mae`r cynllunio yn dangos bod y plant mwy galluog yn cael eu herio.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn dda. Daw'r rhan fwyaf o blant o gefndir Saesneg eu hiaith, ond maen nhw`n dod yn gymwys yn yr iaith Gymraeg, gan eu galluogi i symud ymlaen i'r ysgol gynradd Gymraeg gyfagos.

Mae`r ddau aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae'r plant yn cael eu trochi yn yr iaith. Er bod plant yn deall mwy nag y maen nhw`n siarad, maen nhw`n defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg mewn ymateb i gwestiynau a gorchmynion oedolion.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a phrofiad hir o weithio gyda phlant ifanc. Maen nhw`n yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a gweithgareddau sy`n cael eu cyfeirio gan oedolion ac mae anghenion y plant yn cael eu bodloni mewn ffordd hyblyg. Mae pwyslais ar y plant yn dysgu drwy chwarae a

chymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau. Mae ymddygiad yn cael ei reoli'n dda ac mae`r staff yn fodelau iaith da.

Mae`r plant yn cael mynediad rheolaidd i'r tu allan ac mae'r cyfleusterau tu allan i'r lleoliad ac ymweliadau ymhellach i ffwrdd yn darparu'r plant â chyfleoedd cyffrous i gymryd rhan.

Mae`r plant yn cael eu hasesu`n rheolaidd syn golygu bod eu cynnydd a`u lles yn medru cael eu tracio ar draws pob maes dysgu. Mae`r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynllunio gweithgareddau dysgu yn y dyfodol ar gyfer y grŵp. Fodd bynnag, nid yw'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn cael eu nodi, ac nid yw`r wybodaeth hon yn cael ei darparu ar gyfer y rhieni fel y gallant fod yn rhan o'r broses

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant a`u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle ar gyfer hyrwyddo byw yn iach. Mae`r plant yn cael eu cefnogi'n dda yn emosiynol ac yn addysgol - barn a ategwyd yn llawn gan rieni.

Mae ymdeimlad y plant o chwilfrydedd yn cael ei wella gan eu gweithgareddau yn yr awyr agored ac mae hyn hefyd yn cyflwyno`r syniadau o ofalu am blanhigion ac anifeiliaid. Mae`r plant yn dysgu gweithredu'n gynaliadwy. Mae gweithgareddau dyddiol y lleoliad yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd a chwarae teg ac yn hybu dealltwriaeth o`r hyn sy`n gywir ac anghywir. Mae`r plant yn dysgu cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd ac ymddwyn yn synhwyrol. Mae'r lleoliad yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fod yn greadigol.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel i blant. Mae`r drysau yn cael eu cloi fel na all neb ddod i mewn neu adael heb rybudd. Mae`r plant yn cael eu hebrwng i'r ardd gyfagos wrth weithio y tu allan. Fel rhan o`r ysgol leol, mae hwn yn amgylchedd diogel. Mae`r polisïau a`r gweithdrefnau yn sicrhau bod pob plentyn yn cael eu cefnogi'n dda ac mae`r staff wedi mynychu cyrsiau perthnasol. Mae`r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Nid oes unrhyw blant ar hyn o bryd sydd wedi cael eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae`r polisïau a`r gweithdrefnau wedi eu sefydlu'n dda ac mae'r lleoliad wedi cefnogi plant o'r fath yn y gorffennol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad awyrgylch cynnes, gofalgar lle mae'r holl blant yn cael eu parchu ac mae dealltwriaeth o`u hanghenion unigol. Mae ganddynt hawl gyfartal i bob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae`r berthynas yn dda ac mae'r plant yn cael eu hannog i fod yn oddefgar ac i barchu anghenion ei gilydd. Mae ymddygiad yn dda ac nid oedd unrhyw ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu ormesol wedi`i weld yn ystod yr arolygiad.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael gydag ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad da ac mae ganddo ddigon o adnoddau i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae`r adnoddau yn cael eu defnyddio`n dda ac mae defnydd arbennig o dda yn cael ei wneud o'r ardal leol i gefnogi anghenion dysgu`r plant. Mae'r cyfleusterau allanol yn dda ac yn darparu`r plant ag ystod dda o weithgareddau sy'n cael effaith sylweddol ar sut mae`r plant yn dysgu.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn addas ac yn elwa o fod yn gyfagos i'r ysgol gynradd sy'n derbyn y plant. Mae adnoddau cymunedol, fel y llyfrgell, yn cael eu defnyddio'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn dangos synnwyr cryf o ddiben sy'n hyrwyddo darpariaeth o ansawdd da. Mae`r dysgu a`r addysgu yn cael eu rheoli'n dda gyda'r prif ffocws ar gyflawniad a chynnydd y plant. Mae`r ymarferwyr wedi cadw`n hysbys drwy fynychu cyrsiau a gweithio'n agos gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae`r staff yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol. Mae ymdeimlad o gymuned yn amlwg.

Mae'r berthynas gyda'r plant a'r rhieni yn dda iawn. Mae gwaith y pwyllgor rheoli yn gefnogol o'r lleoliad ac mae hyn yn cael ei effeithio trwy wybodaeth fanwl o waith y lleoliad. Mae`r swyddogion yn mynychu sesiynau ac yn cefnogi gwaith y lleoliad yn rheolaidd. Mae`r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ethos cadarnhaol yn amlwg yn y lleoliad.

Mae`r lleoliad yn cael ei gefnogi'n dda gan bwyllgor rheoli gweithredol. Mae`r polisïau a`r mentrau`n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac mae`r canlyniadau`n cael eu monitro a`u gwerthuso. Mae`r staff yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd ac yn cytuno ar dargedau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r ymarferwyr wedi bod yn y swydd am nifer o flynyddoedd ac yn gwybod beth yw cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae hunanarfarnu wedi cael ei wneud yn gyson ac yn seiliedig ar y meini prawf sydd yn nogfennau Estyn. Mae`r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Maen nhw wedi elwa'n sylweddol o`r ystod eang o gyrsiau proffesiynol maen nhw wedi eu mynychu. Mae`r hunanarfarnu yn ystyried diddordebau`r plant a barn y pwyllgor rheoli. At ei gilydd, mae'r gwelliannau wedi arwain at safonau uwch o gyflawniad a lles i`r plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad cryf ac effeithiol i gyflawniad da a lles y plant. Mae`r rhieni`n cael eu hysbysu'n dda am agweddau o waith y lleoliad – mae nodiadau am y gweithgareddau wythnosol yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd yn y coridor. Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn cael cyfleoedd bob dydd i gwrdd â staff a thrafod unrhyw faterion sy`n eu pryderu.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rheolaidd o'r ystod dda iawn o gyfleusterau tu allan sydd gan yr ysgol gynradd leol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rheolaidd o ardd yr ysgol gynradd a`r ardal bywyd gwyllt. Mae hyn yn galluogi`r plant i archwilio a dod o hyd i greaduriaid bach; sut i`w trin a dysgu gofalu amdanynt. Mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio cwrt tenis tarmac sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau, gan gynnwys y defnydd o deganau symudol a gemau pêl. Mae'r holl gyfleusterau hyn o fewn cyrraedd y lleoliad.

Mae athrawes gefnogi`r Awdurdod Lleol wedi rhoi cyngor a barnau beirniadol i`r lleoliad.

Mae cysylltiadau clir ar waith gyda sefydliadau lleol ac mae`n bosib cysylltu â nhw yn ôl yr angen.

Mae cysylltiadau cymunedol, fel ymweliadau â'r pentref a'r ardal gyfagos, yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu`r plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi`r dysgu. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth fanwl o'r gyllideb sy'n cael ei rheoli'n effeithlon gan drysorydd y pwyllgor rheoli. Mae'r trysorydd wedi bod yn ei swydd ers 3 blynedd ac mae hyn yn darparu parhad yn y rôl. Mae`r penderfyniadau ariannol yn cael eu harfarnu gan y pwyllgor rheoli a'u blaenoriaethu yn unol â hynny.

At ei gilydd, mae hyn yn leoliad sydd wedi`i sefydlu'n dda lle mae`r staff yn rhannu eu gwybodaeth broffesiynol ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Mae'r lleoliad yn darparu darpariaeth o ansawdd da sy`n arwain at gyflawniad a chynnydd da`r plant. Mae'n cael ei gefnogi'n llawn gan y rhieni.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai no 10 ymateb.  No chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |